
# Cronfa Eleri

**Ffurflen cais am gymorth ariannol**

**Amgen**



**Blwyddyn gais: 2024**

**"Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu."**

*Rhaid paratoi'r cais ar y ffurflen swyddogol yn unig. Gellir lawr-lwytho'r ffurflen o safwe'r Gronfa. Rhaid i'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen fod ag enw y sawl sy'n gwneud y cais. Gellir ei danfon i'r Ysgrifennydd yn electronig, ar ffurf ffeil 'Word' neu 'PDF', neu wedi ei hargraffu. Dylid cynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.*

**Teitl y cynllun:**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad:**<br><br><br>**Côd post:**<br>**Ffôn:**<br>**e-bost:** | **Enw'r sawl sy'n gwneud y cais:**<br><br><br>**Corff neu fudiad (os yn berthnasol):** |

**Swm y gwneir cais amdano gan Gronfa Eleri yn y flwyddyn gyfredol: £**

**Manylion unrhyw geisiadau eraill a wnaed am gymorth at yr un cynllun (Maint y cais, dyddiadau perthnasol, a.y.y.b.).** **Noder: Ystyrier yn ffafriol geisiadau lle y byddai cefnogaeth gan Gronfa Eleri yn galluogi denu arian cyfatebol gan gyrff eraill:**

| |
|---|
| **Amcan y cynllun arfaethedig:** |
| **Cyfraniad at fywyd cymdeithasol yr ardal:** |
| **Cyfraniad at fywyd addysgol yr ardal:** |
| **Cyfraniad at fywyd diwylliannol yr ardal:** |
| **Amcan o'r nifer o bobl fydd yn cael budd o'r cynllun:** |

| |
|---|
| **Manylion ariannol** |
| **Costau cyfalaf <u>llawn</u> y cynllun (holl fanylion - atoder dudalennau ychwanegol, os oes angen):** |
| **Swm y cais gan Gronfa Eleri eleni (yr un swm ag ar tud. 1): £** |
| **Manylion holl gostau rhedeg a ragwelir, gan gynnwys sut y bwriedir cyfarfod â'r costau hwnnw** (**Noder: Ni roddir cefnogaeth ariannol tuag at gostau rhedeg beunyddiol mudiadau neu glybiau. Dim ond mewn cysylltiad â chynlluniau penodedig y gellir ystyried elfen o gefnogaeth tuag at gostau refeniw**)**:** |

## Rheolau a chanllawiau cyffredinol Y Gronfa:

1. Gwahoddir ceisiadau ar ddiwedd pob blwyddyn, o'r ardal sy'n amgylchynu fferm wynt Mynydd Gorddu, am gefnogaeth ariannol gan Y Gronfa. Darperir ffurflen gais bwrpasol. Yr unig geisiadau a ystyrir yw rhai a dderbyniwyd **ar y ffurflen gais swyddogol** cyn hanner nos ar y dyddiad cau a nodir ar y ffurflen gais, ac yn y papurau bro lleol (*Papur Pawb* a'r *Tincer*). Bydd cyhoeddiad, sy'n gwahodd ceisiadau am gymorth o'r Gronfa, o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad cau. **Bydd ceisiadau eleni yn berthnasol i flwyddyn cynhyrchu 2024**.
2. Ym mhob blwyddyn bydd Y Pwyllgor yn ystyried pa gynlluniau, perthnasol i amcanion y Gronfa, fydd yn fwyaf tebygol o ddod â budd i'r ardal. Rhoddir ffafriaeth i gynlluniau ble byddai cefnogaeth Y Gronfa iddynt o gymorth i ddenu cymorth ariannol ychwanegol gan gronfeydd eraill. Gallai'r Pwyllgor ystyried, mewn achosion unigol, wneud derbyn cefnogaeth ychwanegol yn amod derbyn cefnogaeth gan Y Gronfa. Caiff argymhellion Y Pwyllgor eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Gwmni *Ynni Amgen*. **Cyhoeddir canlyniadau eleni ddiwedd Ionawr 2025**.
3. Ystyrir ceisiadau gan unigolion, cyrff a mudiadau lleol am gefnogaeth ariannol i cynlluniau penodedig fydd yn "*hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu*". **Ni roddir cefnogaeth ariannol tuag at gostau rhedeg beunyddiol mudiadau neu glybiau. Dim ond mewn cysylltiad â chynlluniau penodedig y gellir ystyried elfen o gefnogaeth tuag at gostau refeniw.**
4. Disgwylir adroddiad ariannol blynyddol o fanylion gwariant unrhyw gynllun a dderbyniodd gefnogaeth gan Y Gronfa.
5. Gall Y Pwyllgor ofyn am ad-daliad o unrhyw arian pe na dderbynnir adroddiad ariannol blynyddol o fanylion gwariant unrhyw gynllun a dderbyniodd gefnogaeth gan Y Gronfa yn y flwyddyn flaenorol.
6. Gall Y Pwyllgor ofyn am ad-daliad o unrhyw arian pe na bai'r cymorth a roddwyd wedi ei ddefnyddio yn union i'r pwrpas y gwnaed y cais gwreiddiol amdano.
7. Bydd unrhyw arian sydd yn weddill o'r arian a roddir gan Y Cwmni mewn un blwyddyn, am pa reswm bynnag, yn cael ei ychwanegu at yr hyn sydd ar gael i'w ddosrannu yn y flwyddyn ganlynol.
8. Ni ystyrir unrhyw gais na fydd, ym marn Y Pwyllgor, yn gydnaws ag amcan Y Gronfa, fel y'i diffinnir uchod.
9. Ni fydd gwrthod cais mewn blwyddyn unigol yn amddifadu cyrff rhag cynnig am gefnogaeth i gynlluniau tebyg yn y blynyddoedd canlynol.
10. Gellir ystyried cefnogi cynlluniau fydd yn gofyn am gyfraniadau ariannol dros gyfnod o ragor nag un flwyddyn.
11. Bydd penderfyniad y Pwyllgor yn derfynol.
12. **Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Pwyllgor ddatgan diddordeb mewn unrhyw gais unigol lle y mae cysylltiad ganddynt a'r cynllun hwnnw. Ni fydd ganddynt yr hawl i fod yn rhan o'r penderfyniad ar y cais hwnnw.**
13. Digolledir yr Ysgrifennydd, gan Y Cwmni, am holl gostau gweinyddol rhedeg Y Gronfa a chyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor.
14. Ni fydd aelodau'r Pwyllgor na'r Cyngor yn derbyn tâl am eu gwaith.

**Datganiad:**
***"Cytunaf i dderbyn rheolau'r Gronfa, ac i ddarparu unrhyw fanylion pellach perthnasol y bydd Pwyllgor Y Gronfa am eu cael."***

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**

**Dychweler y ffurflen hon at:**

***Ysgrifennydd Cronfa Eleri***
***Garreg Wen***
***Tal-y-bont***
***Ceredigion***
***SY24 5HJ***

**e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com**

**Dyddiad cau: 11eg o Ionawr 2025**

**At ddefnydd Cronfa Eleri yn unig:**
**Dyddiad derbyn:**
**Dyddiad trafod:**
**Penderfyniad:**